Adnoddau 1: Ysgrifennu hunangofiannol o Gymru yn Gymraeg

Mae llawer o enghreifftiau o hunangofiant y gellir eu defnyddio gyda'r dosbarth, gan gynnwys:

Caradog Prichard: mae ei nofel *Un Nos Ola Leuad* yn hunangofiant ond ychydig bach o'r chwith. Nid yw ei hunangofiant hwyrach, *Afal Drwg Adda*, mor enwog.

Kate Roberts: *Y Lôn Wen.* Hunangofiant Brenhines ein Llên. Mae argraffiad newydd gan Wasg Gee.

Tomos o Enlli – hunangofiant Tomos Jones a aned ar Ynys Enlli ar ddiwedd y ganrif cyn diwethaf

R.S.Thomas: *Neb*

John Hartson: *Hartson*. Hunangofiant byr, hawdd ei ddarllen am y pêl-droediwr o Gymro

Gerallt Lloyd Owen: *Fy Nghawl fy Hun* – hunangofiant o un o feirdd mwyaf poblogaidd Cymru (20fed ganrif)

Cysgod Tryweryn – hunangofiant am y frwydr i atal boddi Tryweryn gan un o'r ymgyrchwyr - pwnc poblogaidd ar hyn o bryd.

Meic Stephens – *Cofnodion.* Hunangofiant y bardd a'r awdur

Cam o'r Tywyllwch – hunangofiant y canwr pop, Rhys Mwyn, gan fanylu ar hanes Pop Cymraeg yn y 70au– 90au.

Ned Thomas – *Bydoedd.* Roedd Ned yn gyfrifol am ddatblygu *Y Byd* – y papur newydd dyddiol yn Gymraeg na ddigwyddodd. Mae wedi byw mewn nifer o wledydd drwy Ewrop.

David R Edwards – *Atgofion Hen Wanc* – ffigwr chwedlonol yn y byd pop

T H Parry Williams - ysgrifau hunangofiannol yn ei gasgliad *Ysgrifau*.

Blodeugerddi
Mae'n gêm o ddau fileniwm. Gol. Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (Gwasg Carreg Gwalch, 2002) gyda gwaith 20 o feirdd o'r ganrif ddiwethaf. CD ynghlwm.

Gan gynnwys. Gol. Eleri Ellis Jones (Y Lolfa 1995, 2001). Casgliad o gerddi i bobl ifainc. Enillodd Wobr Tir na n'Óg.

Fesul Gair. Gol. Tudur Dylan Jones (Gwasg Gomer, 2015). Casgliad cynhwysfawr o 150 cerdd o'r ganrif hon
. Ar gyfer pobl ifainc 14-18 oed.

Mae pob cyfrol ar gael ar-lein oddi wrth siop lyfrau Cyngor Llyfrau Cymru www.gwales.com